Map profiad defnyddiwr delfrydol

Map ar ffurf bwrdd stori sy’n dangos sut mae ymarferwyr yn darganfod, cael gafael ar, a defnyddio adnoddau

Camau

DARGANFOD ADNODDAU

Cyfleoedd

CANFOD A DIFFINIO’R ANGHENION

Cyfleu anghenion y defnyddiwr a’r amcanion dysgu’n glir er mwyn helpu ymarferwyr i ddewis adnoddau’n effeithiol.

Bwrdd stori ymarferwyr



Mae rhywbeth ar goll…

Mae’r ymarferydd yn sylweddoli bod bwlch yn ei ddeunyddiau addysgu. Ond nid yw’n sicr am beth yn union y mae’n chwilio, na sut i ddod o hyd iddo.

Chwilio gyda bwriad

Mae’r ymarferydd yn dechrau chwilio am syniadau ac adnoddau, gan obeithio dod o hyd i rywbeth sy’n cyd-fynd â deilliannau dysgu’r wers. Ond mae’r holl opsiynau sydd ar gael yn ei lethu, ac yn teimlo’n anghyson.



Troi at Hwb

Mae’r ymarferydd yn mynd i Hwb, gan ei fod yn deall yn well beth sydd ar gael yno. Gyda phopeth mewn un lle dibynadwy, mae’n gallu chwilio’n fwy pwrpasol ar unwaith.

Pethau’n dod yn gliriach

Mae promptiau syml Hwb, yr hidlwyr, a’r awgrymiadau sy’n seiliedig ar anghenion yn help i chwilio’n fwy penodol. Yn sydyn, mae’r ymarferydd yn gallu gweld adnoddau sy’n cyfateb i gamau cynnydd, anghenion dysgwyr ac elfennau penodol yn y Cwricwlwm i Gymru.



Deall beth sy’n addas

Mae rhestr fer benodol yn ymddangos. Mae Hwb yn ei gwneud hi’n hawdd deall sut mae pob adnodd yn cyd-fynd â chamau cynnydd a’r Cwricwlwm i Gymru, gan roi hyder i’r ymarferydd wrth iddo ddewis.

Paratoi ar gyfer anghenion amrywiol

Mae’r ymarferydd yn edrych ar wahanol fformatau hygyrch y mae modd eu haddasu. Mae Hwb yn ei helpu i deilwra’r adnoddau, er mwyn cefnogi pob dysgwr, heb greu gwaith ychwanegol.

Delweddu’r dasg

Mae canllawiau clir, enghreifftiau o ddeilliannau, a dadansoddiadau cam wrth gam yn helpu’r ymarferydd i ddychmygu’r gweithgaredd ar waith yn yr ystafell ddosbarth, gan ei gwneud hi’n haws arwain y dysgwyr.

Uwchfedrau

EGLURDER	MANYLDER	CWMPAWD Y CWRICWLWM	Y GRYM I ADDASU	HYBU HYDERE
⚡ Man cychwyn dibynadwy	⚡ Hidlo perthnasol	⚡ Yn cyd-fynd â’r Cwricwlwm	⚡ Cynhwysol	⚡ Eglurder
⚡ Profiad greddfol	⚡ Hidlo sy’n canolbwyntio ar y dysgwr	⚡ Y gallu i weld yn syth a yw pethau’n addas	⚡ Teg	⚡ Deilliannau amlwg
⚡ Yr hyder i barhau	⚡ Yn cyd-fynd â chamau cynnydd	⚡ Gwneud penderfyniadau’n hyderus	⚡ Y gallu i addasu	⚡ Cyflwyno’n hyderus

ar Hwb y dyfodol

CAEL ADNODDAU

CHWILIO A BWRW GOLWG

Darparu ffyrdd greddfol o chwilio a chategoreiddio clir er mwyn gallu mynd ati'n gyflym i ddarganfod deunyddiau addysg



Gweld y darlun cyfan

Gyda dealltwriaeth glir o sut mae'r adnoddau'n cyd-fynd â gwahanol elfennau, sut mae modd eu haddasu, ac anghenion dysgwyr, gall yr ymarferydd fynd ati'n hyderus i ganfod y mathau o adnoddau sydd eu hangen arno.

DEALLTWRIAETH

- Dull cyfannol
- Penderfyniadau gwybodus
- Yn barod at y cam nesaf



Yn barod i dyrchu'n ddyfnach

Ar ôl darganfod a phenderfynu ar y math cywir o adnodd, mae'r ymarferydd yn parhau i edrych ar yr opsiynau sydd ar gael. Mae bellach yn barod i gael golwg fanylach ar yr hyn a fydd yn gweithio orau.

MEWN RHEOLAETH

- Bwrw golwg benodol
- Yr hyder i bori
- Profiad cyson



Dod o hyd yn gyflym i opsiynau sy'n barod i'r ystafell ddosbarth

Mae'r ymarferydd yn brin o amser, felly mae'n defnyddio hidlwyr clyfar a chategorïau greddfol Hwb i ddod o hyd yn gyflym i adnoddau y gellir eu defnyddio ar unwaith—heb oriau o baratoi.

EFFEITHLON

- Arbed amser
- Adnoddau sy'n barod i'w defnyddio
- Profiad greddfol



Gweithio gyda chynnwys Cymraeg a dwyieithog yn rhwydd

Mae'r ymarferydd yn gallu dod o hyd i adnoddau Cymraeg o ansawdd uchel yn rhwydd, gyda hidlwyr clir a sicrwydd bod y ddwy iaith yn cyfateb yn union.

DWYIEITHRWYDD PUR

- Hidlydd iaith
- Sicrwydd ansawdd
- Yr ieithoedd yn gydradd



Ymddiried yn yr hyn y mae'n ei weld

Wrth sgrolio, bydd bathodynnau ansawdd, labeli sy'n dangos sut mae pethau'n cyd-fynd â gwahanol elfennau, a dangosyddion sydd wedi'u profi gan gymheiriaid yn sicrhau bod yr adnodd o ansawdd da, yn briodol, ac yn ddiogel i'w

HYDER MEWN ANSAWDD

- Ansawdd uchel
- Dibynadwy
- Yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru

Pobl eraill yn ysbrydoli

Bydd yr ymarferydd yn edrych ar beth mae ymarferwyr eraill yn ei glwstwr neu drwy Gymru wedi'i ddefnyddio'n llwyddiannus, gan fanteisio ar enghreifftiau, geirdaon ac adnoddau poblogaidd i osgoi creu gwaith diangen.

CEFNOGAETH CYMHEIRIAID

- Gwybodaeth gan gymheiriaid
- Doethineb y dorf
- Rhannu llwyddiant

Y gallu i weld yn syth a yw pethau'n addas

Bydd rhagolygon sy'n dangos yr adnodd yn syth, tagiau cywir, a chiwiau gweledol yn helpu'r ymarferydd i benderfynu'n gyflym a yw adnodd yn ateb ei anghenion, a hynny'n arbed amser gwerthfawr.

GWELD YN SYTH A YW PETHAU'N GWEDDU

- Yn weledol ddifyr
- Yn berthnasol ar unwaith
- Penderfyniad cyflym

gol perthnasol, dibynadwy a diddorol.

Cadw pethau'n drefnus

Mae'r ymarferydd yn cadw ac yn casglu adnoddau mewn casgliadau, bwndeli neu ffefrynnau, gan greu gofod personol y gall ddychwelyd ato dro ar ôl tro, a hynny'n arbed amser ac yn lleihau straen.

TREFNUS

- ⚡ Profiad personol i'r unigolyn
- ⚡ Llai o straen
- ⚡ Cynllunio sy'n barod at y dyfodol

Dewis yr adnodd yn hyderus

Erbyn hyn, mae'r ymarferydd yn teimlo bod ganddo wybodaeth, cefnogaeth a sicrwydd. Mae'n dewis yr adnodd gan wybod ei fod o ansawdd da, yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, yn ddwyieithog, ac yn barod i'w ddefnyddio.

PENDERFYNIADAU GWYBODUS

- ⚡ Wedi'i rymuso
- ⚡ Wedi'i gefnogi
- ⚡ Hyderus

DEFNYDDIO ADNODDAU

GWERTHUSO AC ADDASU

Cynnig opsiynau hygyrch i ddefnyddwyr ar gyfer addasu adnoddau'n effeithlon, gan sicrhau eu bod yn
gallu amrywiol ymhlith dysgwyr, a safonau'r Cwricwlwm i Gymru



Paratoi i addasu

Mae'r ymarferydd yn agor yr adnodd y mae wedi'i ddewis ac yn ei addasu i weddu i anghenion ei ddysgwyr, fel oedran darllen, gallu, rhuglder yn y Gymraeg a'r Saesneg, a lefelau diddordeb.

Y GALLU I ADDASU

- ⚡ Wedi'i bersonoli
- ⚡ Yn canolbwyntio ar y dysgwr
- ⚡ Golygu hyderus

Addasu'r adnodd ar gyfer anghenion dysgwyr gan ddefnyddio offer cyfarwydd

Er mwyn cefnogi dysgwyr sydd â gwahanol alluoedd, mae modd i'r ymarferydd ddefnyddio offer sy'n teimlo'n gyfarwydd (fel Word, PPT, Google) i addasu deunyddiau'n gyflym ac yn effeithlon.

WEDI PARATOI AC YN DREFNUS

- ⚡ Effeithlonrwydd
- ⚡ Fformatau cyfarwydd
- ⚡ Dim straen

Defnyddio offer clyfar i arbed amser

Bydd offer clyfar yn helpu'r ymarferydd i greu fersiynau gwahanol, i sgaffaldio cwestiynau, i symleiddio testun, i gyfieithu cynnwys, neu i addasu pa mor ddarllenadwy yw pethau, gan leihau llwyth gwaith heb i hynny fod ar draul ansawdd.

EFFEITHLON

- ⚡ Gwelliannau hawdd
- ⚡ Cynnal momentwm
- ⚡ Cymorth effeithiol

Creu deunyddiau dysgu diddorol

Gan ddefnyddio'r offer sydd ar gael ar Hwb, mae'r ymarferydd yn gallu ychwanegu delweddau, diagramau, eiconau, templedi neu ddyluniadau i wneud yr adnodd yn fwy deniadol, hygyrch a difyr i ddysgwyr.

CREADIGOL

- ⚡ Ysbrydoledig
- ⚡ Diddorol
- ⚡ Gwell gallu



Templedi hyblyg

Mae'r ymarferydd yn gallu cynnig templedi strwythuredig i ddysgwyr—fel fideos, posteri, podlediadau, byrddau stori, a diagramau—i'w helpu i ddangos deilliannau dysgu mewn ffyrdd creadigol ac ystyrlon.

CANOLBWYNTIO AR Y DYSGWR

- ⚡ Llais y dysgwr
- ⚡ Mynegiant amlfoddol
- ⚡ Dangos dealltwriaeth

addas ar gyfer cyd-destunau amrywiol,
.

ENNYN DIDDORDEB

DEFNYDDIO'R ADNODDAU AC ENNYN DIDDORDEB

Helpu i ddefnyddio adnoddau mewn ffordd ymarferol ac effeithiol, ennyn diddordeb dysgwyr mewn ffordd ystyrlon, sicrhau bod modd dilyn yr adnoddau'n rhwydd, a sicrhau bod modd eu defnyddio'n ddirwystr yn y dosbarth a gartref ill dau.



Bod yn drefnus o hyd

Mae'r ymarferydd yn gallu cadw fersiynau wedi'u haddasu, bwndelu tasgau sy'n gysylltiedig â'i gilydd, a chadw popeth mewn un lle er mwyn ailddefnyddio adnoddau neu eu diweddaru yn hawdd yn y dyfodol.

TREFNUS

- ⚡ Rheoli fersiynau
- ⚡ Adnoddau'n barod i'w hailddefnyddio
- ⚡ Lleihau llwyth gwaith

Paratoi i gyflwyno'n effeithiol

Cyn addysgu, mae'r ymarferydd yn gofalu bod yr adnoddau'n hygyrch, mae'n allforio fersiynau i'w hargraffu/fersiynau all-lein, ac mae'n rhannu deunyddiau, gan sicrhau bod pawb yn gallu cymryd rhan.

CYFLWYNO'N DDIRWYSTR

- ⚡ Hyder
- ⚡ Yn barod i'r ystafell ddosbarth
- ⚡ Ar gael yn deg i bawb

Dod â'r adnodd yn fyw

Mae'r ymarferydd yn cyflwyno'r adnodd yn y dosbarth ac yn sylwi sut mae dysgwyr yn ymateb, gan ganfod arwyddion o ddiddordeb neu ddryswch.

GWYBODUS

- ⚡ Ennyn diddordeb yn y fan a'r lle
- ⚡ Addysgu ymatebol
- ⚡ Pwyslais ar y dysgwr

Canfod lefel y diddordeb yn y fan a'r lle

Mae angen ffyrdd cyflym ar yr ymarferydd i sicrhau bod dysgwyr yn deall, i sylwi sut maen nhw'n ymateb, ac i weld pa rannau sy'n taro tant, heb amharu ar lif y wers.

EFFEITHLONRWYDD

- ⚡ Gwybodaeth ar unwaith
- ⚡ Dangosyddion diddordeb
- ⚡ Natur yr ymateb

Addasu yn y fan a'r lle

Pan fydd dysgwyr yn cael trafferthion neu angen deunyddiau mwy heriol, mae'r ymarferydd yn newid pethau'n syth: yn symleiddio, yn modelu, yn ymestyn neu'n rhoi tasgau gwahanol yn ôl y galw.

YMATEBOL

- ⚡ Hyblyg
- ⚡ Y gallu i addasu
- ⚡ Ystwyth

Cyfuno offer digidol

Os bydd yr ymarferydd yn defnyddio elfennau digidol, mae arno eisiau technoleg y gall ei defnyddio'n gwbl rhwydd, a honno'n gweithio'n ddibynadwy ar ddyfeisiau'r ysgol ac yn hygyrch i bawb.

Y DECHNOLEG IAWN AR YR ADEG IAWN

- ⚡ Greddfol
- ⚡ Hawdd i'w gosod
- ⚡ Hawdd i'w hintegreiddio

Cadw golwg ar beth sy'n gweithio (a beth sydd ddim yn gweithio)

Pan fydd y wers yn dod i ben, mae'r ymarferydd yn chwilio am batrymau, ac yn holi pa dasgau a weithiodd orau, pryd oedd dysgwyr yn betrus, a beth allai fod angen ei wella at y tro nesaf.

DYSGU A GWELLA

- ⚡ Adnabod patrymau
- ⚡ Deall natur yr addysgu
- ⚡ Ymwybyddiaeth barhaus

Rhannu cynnydd

Ar ôl y wers, mae'r ymarferydd yn anfon diweddariadau syml, clir sy'n dangos cynnydd, cyflawniadau a'r camau nesaf, gan gadw mewn cysylltiad â rhieni a gofalwyr.

WEDI GRYMUSO

- ⚡ Diweddariadau ystyrlon
- ⚡ Dealltwriaeth gyffredin
- ⚡ Meithrin ymddiriedaeth

adnodd
yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru
supporting the Curriculum for Wales

DATBLYGU

CNOI CIL, STORIO A RHANNU

Cnoi cil mewn ffordd strwythuredig, trefn effeithlon a chydweithredol, a rhannu adnoddau llwyddiannus, gan arwain at welliant parhaus a meithrin gwybodaeth ar y cyd.



Gwella'r adnodd at y tro nesaf

Mae'r ymarferydd yn cnoi cil am sut llwyddodd yr adnodd i ennyn diddordeb, ac yn canfod ac yn rhoi ar waith gamau i allu cyflwyno'n fwy effeithiol yn y dyfodol.

Cadw a threfnu at y dyfodol

Mae'r ymarferydd yn cadw'r adnodd sydd wedi'i addasu, ac yn ei storio mewn casgliadau neu ffolderi, gan ei gwneud yn hawdd ei ailddefnyddio y tro nesaf.

Diweddaru a gwella fersiynau

Wrth ddefnyddio'r adnodd yn y dyfodol, bydd yr ymarferydd yn gallu mynd ati eto i fireinio'r testun, y dyluniad, yr enghreifftiau neu'r sgaffaldiau, gan gadw fersiynau newydd heb golli rhai hŷn.

Rhannu â chydweithwyr

Mae'r ymarferydd yn uwchlwytho'r fersiwn mae wedi'i haddasu neu'n ei rhannu'n lleol er mwyn i gydweithwyr allu defnyddio'r adnodd, osgoi dyblygu, a chydweithio i sicrhau ansawdd.

Dysgu gan y gymuned

Mae'r ymarferydd yn edrych ar fersiynau, enghreifftiau a gwelliannau ymarferwyr eraill, gan gael syniadau newydd ac ysbrydoliaeth.

Casglu syniadau newydd

Mae'r ymarferydd yn cadw enghreifftiau, syniadau neu dasgau ysbrydoledig i'w defnyddio yn y dyfodol.

Cefnogi a dathlu cyflawniad dysgwyr

Mae'r ymarferydd yn defnyddio offer ar gyfer cydweithredu a dangos gwaith i helpu dysgwyr i gydweithio, rhannu eu cynnydd, a dathlu llwyddiant.

RHAGWEITHIOL	WEDI PARATOI AC YN DREFNUS	OPTIMEIDDIO	RHAGWEITHIOL	CEFNOGAETH	YSBRYDOLIAETH	DATHLU
⚡ Cnoi cil	⚡ Trefn strwythuredig	⚡ Adnoddau hawdd i'w haddasu	⚡ Rhannu â'ch gilydd	⚡ Gwybodaeth ymhlith y gymuned	⚡ Cydweithio	⚡ Cydnabod dysgwyr
⚡ Adolygu	⚡ Adnoddau'n barod i'w hailddefnyddio	⚡ Momentwm	⚡ Gwelliant torfol	⚡ Rhannu gwybodaeth	⚡ Meddwl am y dyfodol	⚡ Balchder a chymhelliant
⚡ Paratoi	⚡ Yn hawdd cael gafael ar adnoddau eto	⚡ Rheoli fersiynau	⚡ Effeithlon	⚡ Twf proffesiynol	⚡ Creadigol	⚡ Rhannu llwyddiant